# Cymunedau Creadigol AHRC

## Papur Cythrudd Polisi Datganoli

## *Iechyd a Lles*





Creative Communities

UKRI Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE

# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhan o gyfres o bedwar Papur Cythrudd ar Bolisi a gynhyrchwyd gan raglen Cymunedau Creadigol AHRC.

Mae'n cael ei lywio gan ein Labordai Polisi – cyfres o siopau polisi sy'n cael eu hwyluso'n greadigol gyda llywodraethau, llunwyr polisïau, cyfranogwyr traws-sector, cymunedau a phobl ifanc a gynhaliwyd ledled Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'r Awdurdodau â Meiri yn Lloegr.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno atebion polisi wedi'u creu ar y cyd â chyfranogwyr o'n Lab Polisi yn yr Alban yng Nghaeredin.

Mae ei awgrymiadau ar gyfer atebion yn canolbwyntio ar ffyrdd y gall Llywodraeth yr Alban ddefnyddio eu diwylliant datganoledig a phwerau polisi iechyd a lles i ddatgloi arloesedd cynhwysol, i roi'r un cyfle i gael mynediad at ddiwylliant ac ymchwil ac i wella ymdeimlad o berthyn drwy ddarpariaeth traws-sector.

Nod yr argymhellion canlynol yw helpu i gyflawni Rhaglen Lywodraethu'r Alban a chyflwyno cynigion gweithredol ar gyfer Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU yn yr Alban, Cyrff Hyd Braich a rhanddeiliaid traws-sector.



# Cenhadaeth Polisi: Iechyd a Lles

## Iechyd a Lles

Gwella Iechyd | Ansawdd Bywyd | Gweithgarwch Corfforol

Safonau Gofal Iechyd | Diwedd Oes | Iechyd Meddwl

Salwch a Chyflyrau Hirdymor | Byw'n Annibynnol

Atal | Gweithlu Iechyd | Gofal Cymdeithasol

## Cyfleoedd

Dod â Phobl Ynghyd | Grymuso | Hunanfynegiant

Darparu Negeseuon Iechyd y Cyhoedd ar y Cyd

Arloesi Cynhwysol | Ysbrydoli Cymunedau

Ymateb y Claf | Dulliau Cyd-greu | Cynnwys y Claf

Gwerth Celfyddydau a Diwylliant | Cefnogi Iechyd Meddwl

Adeiladu Safbwyntiau ar draws y Cenhedloedd | Rhoi Llais i Brofiad Bywyd

## Heriau

Mynediad Anghyfartal at Adnoddau | Ansicrwydd Swyddi

Cyllid Iechyd Creadigol | Echdynnu | Cyfleu Gwerth Atebion Ataliol

Canlyniadau Celf yn dod yn Ganlyniadau Cymdeithasol

Celf Gymunedol yn erbyn Celf "Go iawn" | Ffocws Allbynnau

Tystiolaeth o Waith | Mynediad at Lunwyr Polisi | "Gwerth" Diwylliant

Ieithoedd sy'n Eithrio | Seilos Proffesiynol | Cyd-greu Tocenistaidd

Tystiolaeth Feintiol yn Unig | Diffyg Data Profiad Bywyd

Peidio â Chydnabod Buddiannau Cymunedol | Cyllid Cynaliadwy

# Cyd-destun Polisi: Iechyd a Lles



Mae Rhaglen Lywodraethu 2024-25 Llywodraeth yr Alban yn cynnwys ymrwymiad i gryfhau perfformiad GIG yr Alban, gan fwrw ymlaen ag ymgysylltu a chynllunio ar gyfer y trawsnewid y bydd ei angen i “gyflawni ein gweledigaeth o’r Alban lle mae pobl yn byw bywydau hirach, iachach a boddhaus”. Mae’r rhaglen yn canolbwyntio ar wella iechyd y boblogaeth drwy atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn creu cynhyrchiant uwch a chynyddu mynediad at wasanaethau. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cyflwyno Bil i sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a fydd yn trosglwyddo cyfrifoldeb gofal cymdeithasol o awdurdodau lleol i wasanaeth cenedlaethol newydd. Bydd y gwasanaeth hwnnw’n ceisio cael effaith ar ddisgwyliad oes ac ansawdd bywyd drwy wella ansawdd gwaith cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn yr Alban.

Mae’r Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles (2023) yn gydweledigaeth Llywodraeth yr Alban a Chonfensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban i wella iechyd meddwl a lles. Mae ei ganlyniadau’n canolbwyntio ar arfogi cymunedau i weithredu fel ffynhonnell cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles pobl, gan hyrwyddo’r gwaith o ddileu stigma a gwahaniaethu a darparu amrywiaeth o gyfleoedd i gysylltu ag eraill. Mae’n ymrwymo i fabwysiadu dull “iechyd meddwl a lles ym mhob polisi” i hwyluso camau gweithredu traws-bolisi sy’n mynd i’r afael yn fwy effeithiol â’r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eang sy’n effeithio ar iechyd meddwl a lles pobl, gan gynnwys tlodi, stigma, gwahaniaethu ac anghyfiawnder.

Mae Iechyd Cyhoeddus yr Alban wedi tynnu sylw at y ffaith mai’r her iechyd cyhoeddus fwyaf sy’n wynebu’r Alban yw’r oedi mewn disgwyliad oes. Mae data’n dangos bod gwahaniaethau dwys mewn incwm, cyfoeth a phŵer yn ffactorau pwysig sy’n sbarduno iechyd ac anghydraddoldebau iechyd yn yr Alban. Er mwyn i bobl ffynnu yn yr Alban, mae angen i flociau adeiladu cymdeithas iach fod ar gael i bawb. Mae Arolwg Iechyd yr Alban 2023 yn dangos bod disgwyliad oes yr Alban yn sylweddol is o’i gymharu â gwledydd eraill yn y DU a Gorllewin Ewrop, yn ogystal â’r gwahaniaeth parhaus mewn canlyniadau iechyd rhwng y rheini sy’n byw yn yr

ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig. Mae gwella iechyd a lles poblogaeth yr Alban yn her allweddol ar lefel leol a chenedlaethol.

Yn 2024, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus yr Alban a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus yr Alban Better Places. Mae hwn yn amlinellu sut gall gweithwyr proffesiynol sy'n gweithredu yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol, cymunedol a'r trydydd sector fabwysiadu dulliau seiliedig ar leoedd i wella canlyniadau, a sicrhau bod ardaloedd sydd â'r angen mwyaf yn cael mwy o fuddsoddiad. Mae Canlyniadau Lle a Lles yr Alban hefyd yn cynnwys canlyniad dinesig sy'n amlinellu pwysigrwydd hunaniaeth a pherthyn. Mae'n dadlau y dylai pawb allu elwa o le sydd â hunaniaeth, diwylliant a hanes cadarnhaol – ac y dylai pobl deimlo eu bod yn perthyn ac yn gallu cymryd rhan a rhyngweithio ag eraill.

Cyhoeddwyd Strategaeth Ddiwylliant yr Alban yn 2020, gan ddilyn gyda Chynllun Gweithredu yn 2023, sy'n nodi sut bydd yr uchelgeisiau'n cael eu cyflawni. Mae'r Cynllun Gweithredu yn ymrwymo i gryfhau gwaith ar draws Llywodraeth yr Alban ar ddatblygu a chyflwyno polisi ar ddiwylliant ac iechyd a lles, drwy roi compactau polisi newydd ar waith a thrwy ymgorffori diwylliant wrth lunio polisïau. Mae hyn wedi cael ei weithredu yng ngweithgor Diwylliant ac Iechyd Llywodraeth yr Alban a sefydlwyd yn ddiweddar.

Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau celf, cerddoriaeth, creadigol a mynegiannol, gan gynnwys drwy bresgripsiynu cymdeithasol, arwain at amrywiaeth eang o fanteision, gan gynnwys mwy o ryngweithio cymdeithasol, llai o straen, mabwysiadu ymddygiad iach, a chanlyniadau gwell fel sgiliau a chyflogaeth. Gall y celfyddydau helpu i fynd i'r afael â heriau mawr sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol: heneiddio, cyflyrau hirdymor, unigrwydd ac iechyd meddwl. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos y gall y celfyddydau helpu i arbed arian yn y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Yn 2021, nododd Creative Scotland 119 o sefydliadau sy'n gweithio yn y celfyddydau ac iechyd ac mae nifer o fodelau darpariaeth ar waith ledled y wlad. Mae llawer o'r modelau hyn yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran gofal, gan gysylltu rhwydweithiau lleol ac arbenigedd ar draws sectorau.



Blaenoriaethau Fframwaith Strategol Creative Scotland yw Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Datblygu Cynaliadwy, Gwaith Teg a Rhyngwladol. Drwy Gronfa Celfyddydau Cyfranogol ac Iechyd Meddwl 2023, a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Sefydliad Baring a'r Sefydliad Iechyd Meddwl, nod Creative Scotland oedd cynyddu a gwella ansawdd y ddarpariaeth celfyddydau ac iechyd meddwl mewn lleoliadau cyfranogol ar lefel gymunedol ledled yr Alban. Dan arweiniad y Sefydliad Iechyd Meddwl, mae Gŵyl Gelfyddydau Iechyd Meddwl yr Alban (SMHAF) wedi ymrwymo i ddulliau creadigol o ymdrin ag iechyd meddwl. Mae'r ŵyl hon yn edrych ar sut gall y celfyddydau a chreadigrwydd helpu i atal problemau iechyd meddwl a chefnogi pobl i fyw bywydau sy'n iachach yn feddyliol. Mae'r ŵyl yn cyfuno ansawdd artistig uchel â chefnogaeth ar lawr gwlad, ymgysylltu â'r gymuned a gweithredu cymdeithasol, ac mae wedi cael ei hefelychu'n rhyngwladol.



Mae Lab Polisi Cymunedau Creadigol yr Alban AHRC 2024 wedi nodi cyfleoedd i ddiwylliant greu economi a chymdeithas gryfach a thecach drwy ddarparu ar draws sectorau i gyrraedd targedau iechyd a lles yn yr Alban.

# Cyd-destun Datganoli: Yr Alban

Yn yr Alban, mae rhai materion yn dal i gael eu llywodraethu gan Lywodraeth y DU ac mae'r Cerrig Milltir ar gyfer Llywodraeth dan arweiniad Cenhadaeth yn ganolog i hyn. Cynrychiolir yr Alban yn Senedd y DU yn San Steffan gan bum deg a saith o ASau yr Alban. Mae gan yr Alban hefyd ei llywodraeth ddatganoledig ei hun gyda 129 Aelod o Senedd yr Alban.

Mae Llywodraeth yr Alban yn llywodraethu mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli o San Steffan. Mae'r rhain yn cynnwys: yr economi, addysg, iechyd, cyfiawnder, chwaraeon a diwylliant, twristiaeth, materion gwledig, tai, yr amgylchedd, cyfleoedd cyfartal, eiriolaeth a chyngor i ddefnyddwyr, trafnidiaeth a threthiant.

Mae llawer o ffactorau cymdeithasol, economaidd a seiliedig ar leoedd yn rhan o'n profiadau o iechyd a lles a sut rydym yn cael mynediad at ddiwylliant ac yn ymgysylltu ag ef, fel rhan o'n hymdrechion i "fyw'n dda". Mae polisïau datganoledig yn chwarae rhan allweddol o ran datgloi potensial y celfyddydau, diwylliant a'r diwydiannau creadigol i fynd i'r afael â chyfleoedd a heriau sy'n deillio o gyd-destunau iechyd a lles yn yr Alban gyfoes.



# Awgrymiadau ar gyfer Datrysiad Polisi

## ✱ Iechyd Creadigol Cynhwysol

**Mae angen newid systematig i ddileu rhwystrau cyllido ar gyfer ymarfer creadigol a chymunedol ac i sefydliadau gydnabod gwerth ac effaith y gwaith hwn gyda llunwyr polisïau**



### Y prif bwynt i'w gofio

Mae ymarferwyr creadigol yn dweud eu bod yn aml yn wynebu rhwystrau ariannol wrth weithio ym maes iechyd creadigol, gan gynnwys cael eu talu'n briodol am eu hamser. O ganlyniad, weithiau gallant deimlo bod gweithio mewn lleoliadau iechyd creadigol yn brofiad echdynnol ac anghyfartal.

Rhaid cydnabod gwerth ymarfer creadigol o ran cyflwyno rhaglenni iechyd creadigol. Mae angen i daliadau i ymarferwyr creadigol fod yn deg, gan ystyried yr holl broses greadigol y maent wedi'u contractio i'w chyflawni ar y cyd, gan gynnwys cynllunio, adeiladu rhwydweithiau a phartneriaethau, hwyluso, cydweithio a gwerthuso.

Mae gwerth mewn llunwyr polisïau sy'n gweld budd ymarfer creadigol. Dylai sefydliadau diwylliant, prifysgolion a phrif gyllidwyr ddatblygu llwybrau i rannu'r allbynnau creadigol hyn – a chodi proffil gwaith ymarferwyr creadigol a'r effaith y gall y gwaith hwn ei chael ar gymunedau.

Mae angen i sefydliadau sy'n gweithio gydag ymarferwyr creadigol roi costau realistig yn eu cyllidebau sy'n adlewyrchu amser ac arbenigedd ymarferwyr creadigol. Byddai hyn yn rhoi mwy o ddiogelwch rôl i ymarferwyr creadigol. Dylai ymarferwyr creadigol gael eu talu'n deg ac yn briodol am eu hamser a'u hymdrech, yn unol â pholisi Fair Work First Llywodraeth yr Alban, Canllaw Cyfeirio at Gyfraddau Cyflog Creative Scotland ar safonau'r diwydiant, cyfraddau undebau a chodau ymarfer gan gyrff arweiniol allweddol, ac o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol.

Rhaid annog rhwydweithiau a sefydliadau presennol i arloesi i wneud llwybrau cyllido yn fwy hygyrch, gan gynnwys grantiau gweinyddu isel ar gyfer sefydliadau ar lawr gwlad. Rhaid ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o ddyrannu cyllid hefyd, gan gynnwys ariannu adnoddau sy'n cael eu rheoli gan gymunedau a phobl greadigol. Mae'n hanfodol bod hyn yn digwydd mewn dull gweithredu o'r gwaelod i fyny, lle mae cyllidebu cyfranogol yn gynhwysol, a lle mae aelodau'n cael eu talu am gymryd rhan.

# Profiadau Bywyd o Iechyd Creadigol

**Dylid ehangu'r gwerthusiad o'r ddarpariaeth iechyd creadigol mewn lleoliadau datganoledig, er mwyn galluogi diwylliant lles i ddod yn rhan o ddull system gyfan sefydledig o ymdrin ag iechyd a lles yn yr Alban**

## Y prif bwynt i'w gofio

Dylai GIG yr Alban ddatblygu prosiect peilot rhwng bwrdd iechyd ac ymarferwyr creadigol sy'n gwerthuso ymarfer ac yn profi a yw canfyddiadau o weithio mewn seilos yn broblem. Y nod fyddai deall beth mae ymarferwyr creadigol a gweithwyr gofal iechyd yn ei brofi pan fyddant yn gweithio gyda'i gilydd, a manteision cyffredinol ymarfer creadigol i ddarpariaeth gofal iechyd.

Dylid cynnal ymchwil i brosiectau rhyngddisgyblaethol a thraws-sector presennol hefyd i nodi'r manteision a'r rhwystrau y mae ymarferwyr creadigol yn eu profi wrth weithio fel rhan o dîm gofal iechyd.

Dylai hyn fod yn sylfaen dystiolaeth ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb ar sut i gynyddu a chefnogi'r gwaith o ddarparu diwylliant cynaliadwy ar gyfer lles, fel rhan o ddull gweithredu cyfannol a system gyfan ar gyfer iechyd a lles yn yr Alban.

Mae hyn yn cysylltu ag uchelgais Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ddiwylliant, i gryfhau datblygiad a darpariaeth ar draws Llywodraeth yr Alban drwy weithgor Diwylliant ac Iechyd Llywodraeth yr Alban. Yna, dylai canfyddiadau ac argymhellion GIG yr Alban gael eu bwydo'n ôl a'u gweithredu gan y gweithgor.



# Gwerth Iechyd Ddiwylliannol

**Gall diwylliant gyflawni canlyniadau iechyd a lles wrth eu cyflwyno mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ar draws sectorau**

## Y prif bwynt i'w gofio

Mae dangos gwerth diwylliant i iechyd a lles yn her economaidd barhaus. Mae penderfyniadau ynghylch pryd i gynnwys diwylliant mewn gofal iechyd yn aml yn cael eu gwneud gan arweinwyr iechyd neu lunwyr polisi. Mae hyn yn arwain at ymdeimlad o docenistiaeth yn y sector diwylliant a pheidio â chael ei gynnwys mewn sgyrsiau pwysicach am werth cymdeithasol ac economaidd, effaith a chyfeiriad strategol.

Dylai Creative Scotland gryfhau ei sylfaen dystiolaeth a chyfleu manteision cymdeithasol ac economaidd diwylliant ar gyfer iechyd a lles. Gallai gyflawni hyn drwy gynnwys iechyd creadigol fel blaenoriaeth yn ei Fframwaith Strategol a'i Gynllun Blynyddol.

Gallai Creative Scotland ac Iechyd Cyhoeddus yr Alban hefyd ffurfio partneriaeth, gan weithio ochr yn ochr â'r sector diwylliant ehangach a phartneriaid cyllido, i sicrhau bod ymyriadau diwylliant yn hygyrch i bawb fel rhan o gymorth iechyd a lles a phresgripsiynu cymdeithasol. Byddai hyn yn golygu bod modd casglu a gwerthuso data ymhellach ynghylch gwerth iechyd creadigol. Byddai hefyd yn cyfrannu at ddull Better Places sy'n seiliedig ar leoedd a Chanlyniadau Lle a Lles yr Alban: gan alluogi cymunedau i deimlo eu bod yn perthyn a'u bod yn gallu cymryd rhan a rhyngweithio'n gadarnhaol ag eraill drwy ddiwylliant er lles.



# Llunio Polisïau "Tyfu ein Hunain"

**Gall dulliau cyd-greu ar gyfer llunio polisïau mewn cymunedau greu cenhedlaeth newydd o lunwyr polisi ac atebion polisi wedi'u cyd-greu gan yr Alban ac ar ei chyfer**

## Y prif bwynt i'w gofio

I gymunedau, gall canfod ble mae'r drws polisi, dod o hyd i ffordd i mewn a llywio eu ffordd o gwmpas llunio polisïau fod yn broses anodd a chymhleth. Dylid rhoi'r adnoddau priodol i gymunedau gymryd rhan mewn llunio polisïau, gyda llunwyr polisïau'n gweithio gyda chymunedau yn hytrach na siarad ar eu rhan.

Mae datganoli yn yr Alban yn cyflwyno'r cyfle i ddod â chymunedau'n nes at lunio polisïau drwy fentrau "tyfu ein hunain", yn hytrach na defnyddio llunwyr polisi o San Steffan. Dylai cynnwys cymunedau yn y gwaith o lunio polisïau fod yn fenter hirdymor gan Lywodraeth yr Alban sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o lunwyr polisi, er mwyn i bobl ifanc o gymunedau amrywiol ledled yr Alban gael cyfleoedd i ymgysylltu a datblygu llwybrau ymarferol at yrfaoedd llunio polisïau o oedran ifanc.



Dylai Llywodraeth yr Alban greu cynllun pellgyrhaeddol cronfa o dalent sy'n targedu'r broses o godi ymwybyddiaeth o lunio polisïau mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion. Byddai hyn yn cyfeirio pobl ifanc o gymunedau amrywiol at gyfleoedd i lunio polisïau ieuenctid, gan gynnwys drwy Ddysgu a Datblygu Cymunedol, Senedd Ieuenctid yr Alban a Phrentisiaethau Llywodraeth yr Alban. Dylid sefydlu mecanweithiau i gynyddu capasiti rolau polisi-benodol drwy gynllun Prentisiaethau Llywodraeth yr Alban ac i gefnogi ystod eang o bobl ifanc i gymryd rhan ynddo. Byddai hyn yn sicrhau bod llunwyr polisi yn y dyfodol yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y mae eu polisïau'n effeithio arnynt, gan ddod â mwy o wybodaeth leol a phrofiad bywyd i'r broses o lunio polisïau yn y dyfodol.

Rhaid ystyried rhwystrau i hygyrchedd a chynhwysiant, ynghyd ag agweddau "nid i mi" a allai effeithio ar barodrwydd rhai pobl ifanc i gymryd rhan mewn proses llunio polisïau.

## Cymunedau Creadigol AHRC

Mae Cymunedau Creadigol yn rhaglen ymchwil bwysig a ariennir gan AHRC ac a gynhelir gan Brifysgol Northumbria, sy'n edrych ar sut gall diwylliant sydd wedi'i greu ar y cyd wella ymdeimlad o berthyn, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol, cyflawni datganoli, a chwalu rhwystrau i gyfleoedd gyda chymunedau mewn lleoliadau datganoledig ar draws pedair gwlad y DU.

**Awduron:** Helen Apsey, Arweinydd Polisi | E-bost: helen.apsey@northumbria.ac.uk
Yr Athro Katy Shaw, Cyfarwyddwr | E-bost: katy3.shaw@northumbria.ac.uk

Mae Cymunedau Creadigol yn cael ei gefnogi gan fwrdd rhaglen yn AHRC a Bwrdd Cynghori allanol. Rydym yn ddiolchgar am eu haelioni o ran amser ac am eu hadborth parhaus.

Mae'r tîm yn diolch i'r amrywiaeth eang o gyfranogwyr traws-sector yn ein Lab Polisi yr Alban, a wnaeth amser i rannu eu profiadau, eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth. Cafodd yr holl weithwyr llawrydd a gymerodd ran gynnig tâl am eu hamser. Mae eu gwaith wedi bod yn amhrisiadwy o ran cynhyrchu canfyddiadau ac argymhellion.

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) a'i gynnal ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.